# Cydlynydd Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid Cymru

**SWYDD DDISGRIFIAD**

| | |
|---|---|
| **Cyflogir gan:** | Climate Cymru, a gynhelir gan Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru |
| **Yn gyfrifol i:** | Clare James, Cydlynydd Rhwydwaith |
| **Cyflog a phensiwn:** | £32,104 y flwyddyn, pro rata<br><br>Byddwch yn cael eich cofrestru'n awtomatig yn ein cynllun pensiwn, a bydd WCIA yn talu cyfraniadau pensiwn hyd at uchafswm o 5% o'ch cyflog crynswth (o leiaf 4%) |
| **Telerau cyflogaeth:** | 12 mis, gyda chyfnod prawf o dri mis.<br><br>Rydym yn chwilio am arian ychwanegol i barhau â'r rôl y tu hwnt i'r 12 mis. |
| **Lleoliad:** | Gweithio o bell, gyda'r opsiwn i weithio o'r swyddfa/yn hybrid yng Nghanolfan Materion Rhyngwladol Cymru, y Deml Heddwch, Caerdydd. |
| **Oriau:** | 1 diwrnod yr wythnos / 7.4 awr yr wythnos.<br>Gall yr oriau wythnosol gwirioneddol amrywio, a fydd yn cael eu rheoli drwy ein polisïau TOIL a gweithio oriau hyblyg.<br>Bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio amserlen hyblyg, a fydd yn cynnwys dydd Sul a gyda'r nos i gefnogi'r Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid y tu allan i oriau ysgol. Opsiwn ar gyfer oriau ychwanegol hyd nes y bydd cyllid yn y dyfodol. |
| **Lwfans gwyliau:** | 36 diwrnod, gan gynnwys gwyliau'r banc, pro-rata. |
| **Teithio:** | Bydd mynychu digwyddiadau, cyfarfodydd a gweithgareddau yn bersonol yng Nghaerdydd a ledled Cymru yn rhan reolaidd o'r rôl. |
| **Arall:** | Mae'r swydd hon yn destun gwiriad DBS uwch a bydd yn ofynnol i'r ymgeiswyr llwyddiannus ymgymryd â hyfforddiant diogelu a chyfle cyfartal. |

## Ynghylch Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid Cymru (YCA)

Mae Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid Cymru yn grŵp o bobl ifanc 13-15 o bob cwr o Gymru sy'n Ymgyrchwyr Hinsawdd angerddol sy'n brwydro dros Gyfiawnder Hinsawdd. Fe'u cefnogir gan Climate Cymru a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA), ac fe'u hariannir gan y Gronfa Newidwyr Gêm Ifanc, gyda'r nodau a'r camau gweithredu yn cael eu harwain gan Lysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid Cymru.

Darganfyddwch fwy yma: https://www.ycawales.com/
Mae nodau ac amcanion y Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid ar gyfer y 6 mis nesaf fel y ganlyn:

- Ehangu ein hymgyrch llygredd afonydd a bioamrywiaeth, gan ddefnyddio digwyddiadau cyhoeddus, cynnwys digidol, ac adnoddau a ddyluniwyd gan ieuenctid i godi ymwybyddiaeth a galw am newid, gan ddilyn deiseb a chanlyniadau cyfarfodydd pwyllgor deisebau.
- Lansio ein harddangosfa datrysiadau sy'n seiliedig ar natur yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gan gynnwys gweithdai a arweinir gan ieuenctid a theithiau tywys i ysgolion a theuluoedd.
- Trefnu digwyddiad etholiadol dan arweiniad ieuenctid yn gynnar yn 2026 i ennyn diddordeb ymgeiswyr gwleidyddol gyda'n maniffesto a'n blaenoriaethau hinsawdd ieuenctid cyn etholiadau'r Senedd.
- Lansio grwpiau YCA lleol ledled Cymru, gan greu rhwydwaith cenedlaethol cysylltiedig o arweinwyr hinsawdd ifanc sy'n gallu mynd i'r afael â materion lleol tra'n cysylltu'n ôl â'r grŵp YCA Cymru Gyfan.
- Cydweithio â'r Llysgenhadon Heddwch Ieuenctid ar ymgyrch newydd i ddal llywodraethau i gyfrif am allyriadau milwrol a rhyfel.
- Cynnal ymgysylltiad ac arweinyddiaeth trwy ariannu cymorth cydlynu, teithio a chyfathrebu i gadw pobl ifanc yn gysylltiedig ac yn ymwneud â nhw.
- Darpariaeth Hyfforddiant Parhaus i'r bobl ifanc yn ôl anghenion y grŵp

## Ynghylch Climate Cymru

Mae Climate Cymru (https://climate.cymru/) yn fudiad o filoedd o unigolion, ac yn rhwydwaith o gannoedd o sefydliadau o bob sector yng Nghymru, sydd wedi cael eu dwyn ynghyd trwy gyfrwng gwerthoedd a rennir, a chydnabyddiaeth bod yr argyfwng hinsawdd a natur yn gofyn am weithredu brys a theg. Rydym yn credu y dylai gweithredu gael ei lywio gan wyddoniaeth a lleisiau pobl ar draws Cymru.
Mae Climate Cymru yn cael ei letya gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA).

Mae Climate Cymru yn canolbwyntio ar effaith, yn ddeinamig, ac yn gyfrwng pwerus dros newid yng nghymdeithas Cymru. Rydym yn gwneud hyn drwy'r ffyrdd canlynol:

- Rhoi pwysau ar y rheini sydd â phŵer i weithredu'n gadarn.
- Ymgysylltu'n gynhyrchiol â Llywodraeth Cymru.
- Gwneud yn siŵr bod lleisiau o ar draws Cymru yn cael eu clywed a'u cynrychioli
- Ysbrydoli a chysylltu ein rhwydwaith.
- Ehangu a chyflymu gwaith ein partneriaid
- Rhannu gwybodaeth bwysig a chyfleoedd gyda'n rhwydwaith a'r cyhoedd ehangach
- Dysgu gan Gymdeithas yng Nghymru, a thu hwnt
- Datblygu cefnogaeth gyhoeddus eang ar gyfer gweithredu
- Cynrychioli lleisiau a sefydliadau Cymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

## Ynghylch Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) yn ysbrydoli pobl i ddysgu am faterion byd-eang a gweithredu arnynt fel y gall pawb yng Nghymru gyfrannu at greu byd tecach a mwy heddychlon.

## Crynodeb y Rôl

Gan adrodd i'r Gydlynydd Rhwydwaith, bydd Cydlynydd Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid Cymru yn cefnogi'r YCAs o ran gwaith ieuenctid, gweinyddu, cynllunio a gweithredu prosiectau a chymorth bugeiliol. Rydym yn chwilio am rywun sydd â phrofiad ymarferol o waith ieuenctid a sgiliau rheoli/gweinyddu da gydag angerdd dros fynd i'r afael â materion amgylcheddol a chefnogi pobl ifanc i ffynnu.
Mae'r rôl hon yn cynnwys gweithio'n agos gyda'r arweinydd Gwirfoddolwyr ac Ysgolion yn Climate Cymru, aelodau eraill o dîm CC, sefydliadau allanol a sefydliadau partner.

Bydd disgwyl i unrhyw ymgeisydd a gynigir y swydd lofnodi a chadw at bolisi Diogelu a Chod Ymddygiad y WCIA.

## Cyfrifoldebau penodol y rôl hon:

1. **Gwaith Ieuenctid**
   - Cyflawni gwaith ieuenctid wyneb yn wyneb ac ar-lein
   - Adeiladu a chynnal perthynas gadarnhaol â phobl ifanc
   - Gweithio o fewn tîm i nodi anghenion pobl ifanc a chynorthwyo i gyflwyno rhaglenni datblygu personol
   - Annog pobl ifanc i gymryd rhan weithredol ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r rhaglen#
   - Cefnogi a sefydlu aelodau newydd YCA i'r grŵp
   - Cefnogi'r YCA i ymgysylltu â fforymau gwleidyddol, megis y Grŵp Trawsbleidiol ar Newid Hinsawdd yn Senedd Cymru
   - Cefnogi'r YCA i gynnal digwyddiadau dan arweiniad ieuenctid yng Nghymru i helpu i sefydlu ymgysylltiad ieuenctid ehangach a llwybrau i bobl ifanc ledled Cymru ymgysylltu â'r YCA

2. **Gweinyddiaeth / Cyffredinol**
   - Cefnogi YCA gyda'u gweinyddiaeth a'u sefydliad gan gynnwys ymateb i geisiadau am gyfarfodydd a rheoli/ymateb i gysylltiadau
   - Cadw cofnodion cywir o bob agwedd ar YCA a'u gweithgareddau
   - Monitro a gwerthuso gwaith ieuenctid mewn ymgynghoriad â chydweithwyr a phobl ifanc a gosod targedau ar gyfer dilyniant
   - Ymgymryd ag ymchwil i gamau y mae pobl ifanc yn dymuno eu cymryd a'u cefnogi i gyflawni yn erbyn eu cynllun gweithredu
   - Adrodd ar gyfer Cyllidwyr
   - Cadw'r holl ddata yn unol â rheoliadau GDPRBod yn atebol ac yn gyfrifol am gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd gan roi sylw i bolisi Cyfle Cyfartal a pholisi diogelu WCIA
   - Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill o'r fath sy'n gymesur o fewn gradd y swydd, fel sy'n ofynnol ac fel y gofynnwyd amdano gan eich rheolwr llinell

## Manyleb Person

Rhaid i ymgeiswyr ddangos y priodoleddau canlynol trwy eu cysylltu â'u sgiliau a'u profiadau yn y datganiad cais am swydd.

**Gofynion hanfodol**

- Dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i genhadaeth Climate Cymru a gweledigaeth WCIA ar gyfer byd tecach, mwy heddychlon.
- Dealltwriaeth o sut i ymgysylltu â phobl ifanc mewn rhaglen wirioneddol dan arweiniad ieuenctid
- Y gallu i ymgysylltu â phobl ifanc mewn ffordd sy'n annog, ysbrydoli a grymuso
- Gallu ennill ymddiriedaeth a pharch gan ieuenctid i ddatblygu perthynas barhaol ac effeithiol â nhw
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd lleisiau ieuenctid mewn cyd-destun Cymreig
- Gwaith ieuenctid, cymwysterau neu brofiad perthnasol
- Sgiliau trefnu rhagorol
- Rhaid bod yn barod i weithio ar benwythnosau ac oriau hyblyg i ddiwallu anghenion yr YCA
- Profiad o ymgysylltu â phobl ifanc a chynnal digwyddiadau ieuenctid (gan gynnwys ar-lein)
- Sgiliau TGCh rhagorol, cynnal digwyddiadau ar-lein a chefnogi cyfarfodydd ar-lein
- Gwybodaeth neu brofiad gwaith o arferion diogelu
- Wedi ymrwymo i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg

**Priodoleddau dymunol**

- Rhuglder yn y Gymraeg, gyda'r gallu i ysgrifennu a chyflwyno cyfathrebiadau yn Gymraeg
- Dealltwriaeth o newid hinsawdd, pryder hinsawdd a/neu ymgyrchu amgylcheddol
- Dealltwriaeth o egwyddorion diogelu ac ymrwymiad iddynt
- Dealltwriaeth o hawliau plentyn UNHRC

## Proses Ymgeisio

- Rydym wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth yn y WCIA, gan gael gwared ar rwystrau a chefnogi ein holl staff i gyrraedd eu potensial. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb waeth beth fo'u hoedran, priodas (gan gynnwys priodas gyfartal ac o'r un rhyw) a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, nam neu gyflwr iechyd, hil, crefydd neu gred neu feichiogrwydd a mamolaeth.

- Rhaid i bob ymgeisydd lenwi ffurflen gais swyddogol WCIA am Gyflogaeth, sydd ar gael yn Swyddi Gwag - Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru. Byddwn yn derbyn ffurflenni cais yn unig, nid CVs neu lythyrau eglurhaol – **gwnewch yn siŵr eich bod chi'n esbonio, gydag enghreifftiau, sut mae gennych yr holl feini prawf hanfodol yn eich cais**
- Dylai pob ymgeisydd lenwi'r ffurflen Cyfle Cyfartal, sydd ar gael yma. Sylwer, mae hon wedi'i gwahanu oddi wrth eich ffurflen gais ar ôl ei derbyn ac nid yw'n cael ei rhannu gyda'r panel rhestr fer neu gyfweliad.
- Cyflwynwch eich cais drwy e-bost i centre@wcia.org.uk. Os nad oes gennych fynediad ebost, gallwch anfon cais papur i'r cyfeiriad a roddir ar y ffurflen gais. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ofynion mynediad eraill er mwyn cyflwyno cais.
- Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 1pm, 23 Chwefror 2026. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth e-bost at bob ymgeisydd. Os nad ydych yn derbyn cydnabyddiaeth cyn y dyddiad cau, cysylltwch â ni. Ni allwn fod yn gyfrifol am geisiadau nad ydynt yn ein cyrraedd, neu sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau.
- Mae'r WCIA yn gweithredu recriwtio heb enw. Ni fydd y panel recriwtio yn gweld gwybodaeth bersonol fel enw a chyfeiriad ymgeisydd yn ystod y broses chwilot. Mae'r polisi hwn yn unol â'n hymrwymiad i roi terfyn ar ragfarn a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Os ydych ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol gyda'r manylion. Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ar-lein.
- Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ac angen trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu os hoffech drafod sut y byddwn yn eich cefnogi os byddwch yn llwyddiannus, anfonwch e-bost centre@wcia.org.uk cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich pryderon a'ch gofynion.
- Ni fydd unrhyw geirdaon yn cael eu cymryd nes bod cynnig dros dro o gyflogaeth wedi'i wneud.
- Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu hysbysu trwy e-bost.